
BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

Dydd Iau, 1 Rhagfyr 2016 at 10.00 am
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

YN BRESENNOL:	Bethan Jones (Cadeirydd)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
	Iwan Davies Cynghorydd Hugh Evans Mohammed Mehmet Simon Smith	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir Ddinbych Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
	Sian Williams Dr Walker dros Evan Moore	Cyfoeth Naturiol Cymru Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyfranogwyr a Wahoddwyd:	Wendy Jones Judith Magaw Kathrin Thomas Nigel McCann	Cefnogaeth Wirfoddol Gymunedol Conwy Heddlu Gogledd Cymru Cwmni Adferiad Cymunedol Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Hefyd yn Bresennol:		
Swyddogion:	Debbie Horton Nicola Kneale Fran Lewis Hannah Rigby Vicki Roberts Megan Vickery	Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol Swyddog Ymgysylltu - Canolbarth

32. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Dr Evan Moore (BIPBC), Andrew Jones (Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol), Stephen Hughes (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), y Cynghorydd Dilwyn Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Helen Wilkinson (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych) a Sioned Rees (Llywodraeth Cymru).

33. COFNODION

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 26 Medi 2016.

34. **MATERION YN CODI**

Dim.

35. **REFFERENDWM YR UNDEB EWROPEAIDD – DIWEDDARIAD LLYWODRAETH CYMRU AR Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF MEWN PERTHYNAS Â CHANLYNIADAU A GOBLYGIADAU**

Darparodd Swyddog Datblygu BGC Conwy ddiweddariad i'r Bwrdd ar y sefyllfa ddiweddaraaf o ran Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ar ran Sioned Rees (Pennaeth Cefnogi Galw Cynyddol a Mesurau Arbennig, Llywodraeth Cymru), fel a ganlyn:

Amlinellodd y Prif Weinidog 6 blaenoriaeth allweddol yn syth ar ôl y refferendwm a gafodd eu crynhoi fel:

- diogelu swyddi a sicrhau hyder ymysg busnesau yn dilyn y refferendwm;
- cyfranogiad llawn mewn trafodaethau ar ymadawiad y DU o'r UE;
- parhau â mynediad llawn a dilyffethair at Farchnad Sengl yr UE;
- diogelu cyllid a gyllidebwyd o dan raglenni presennol yr UE;
- diwygio ariannol i sicrhau cyllid teg i Gymru yn y dyfodol; a
- pherthynas newydd rhwng y Llywodraethau datganoledig a'r DU.

Byddai Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei alw i rym erbyn diwedd mis Mawrth 2017, ac ni fyddai'r dyfarniad diweddar gan yr Uchel Lys yn oedi'r amserlen. Unwaith y bydd hysbysiad wedi digwydd, byddai trafodaethau ffurfiol yn dechrau rhwng yr UE a'r Aelod-wladwriaethau, gyda'r bwriad o gytuno ar y trefniadau ar gyfer tynnu'n ôl.

Nodwyd y byddai Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd yn mynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol yn y rhanbarth.

Amlygodd Aelodau'r Bwrdd y newid a'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig. Dywedodd Prif Weithredwr Conwy (Iwan Davies) y byddai'n trefnu i'r mater gael ei godi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd yr wythnos ganlynol.

Teimlai Aelodau'r Bwrdd, er nad oedd unrhyw beth sy'n benodol i'r ardal, roedd pryder y byddai effaith economaidd.

Yr adborth gan Interreg (cyfres o bum rhaglen i ysgogi cydweithredu rhwng rhanbarthau yn yr Undeb Ewropeaidd, a ariennir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop) yw bod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â chael mynediad at Gyllid Ewropeaidd a bod Gwledydd nad ydynt yn rhan o Ewrop megis Norwy a'r Swistir, yn elwa o Arian Ewropeaidd. Roedd y sefyllfa ar gyfer Cymru yn aneglur ar hyn o bryd ac roedd Gogledd Iwerddon eisoes yn teimlo effaith negyddol gadael yr UE. Y neges gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) oedd eu bod yn dal ar agor i fusnes ac y byddai'r Llywodraeth yn tanysgrifennu'r prosiectau hynny sydd eisoes wedi'u cymeradwyo a'u llofnodi.

Cydnabu Aelodau'r Bwrdd fod 'cyllid bywyd' yn fater ar wahân i'r rhai a ymrwymwyd eisoes ac roedd dal nerfusrwydd ynghylch cyllid newydd.

Roedd Cymru wedi bod yn un o'r buddiolwyr mwyaf o Arian Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae rheoli cyllid mewn perthynas â phrosiectau cymunedol wedi bod yn destun biwrocratiaeth, gan gynnwys datganoli arian i sefydliadau statudol eraill.

Roedd rôl y cyfryngau, cyfathrebu a theimladau cyffredinol y cyhoedd yn cael ei ystyried fel problem wrth gyfathrebu penderfyniadau anodd.

Amlygwyd yr angen i sicrhau nad oedd Rhanbarth Gogledd Cymru yn colli allan ac i'r Byrddau edrych ar weledigaeth 10 i 15 mlynedd, er mwyn creu cyfleoedd a nodi risgiau lleol. Hefyd, mewn perthynas ag ymarferiad cyfathrebu, amlygwyd yr angen i ddeall y gwersi a ddysgwyd o Brexit. Dywedodd Prif Weithredwr Conwy (Iwan Davies) fod Swyddogion o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar hyn o bryd yn diweddarau papur, a gellid ei gylchredeg, mewn perthynas â Chyllid Ewropeaidd, Tlodi a'r Celfyddydau a nodwyd bod swm sylweddol o arian Ewropeaidd wedi'i ddyrannu i Addysg Uwch. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar oblygiadau Brexit ar gyfer Cymru, a ddaeth i ben ar 28 Tachwedd, 2016.

Mewn perthynas â Chyngor Sir Ddinbych, nodwyd bod grantiau wedi cael eu sicrhau a'u gwarantu tan 2019. Fodd bynnag, roedd ansicrwydd ynghylch y dyfodol a chynghorodd Prif Weithredwr Sir Ddinbych (Mohammed Mehmet) yn erbyn dyfalu a rhagdybio o ran y dyfodol ar hyn o bryd, gan nodi dylid herio'r Llywodraeth mewn perthynas â ffynhonnell gyllid newydd.

Ystyriodd y Bwrdd fod angen deall beth oedd Ewrop yn ei gyllido, ar ôl 2019, yn enwedig mewn perthynas â thlodi, lles a nodi bylchau a blaenoriaethau. Mae angen amlygu'r bylchau ariannu fel llinell sylfaen yn yr Asesiad Lleol o Les.

PENDERFYNWYD-

Amlygu'r bylchau ariannu fel llinell sylfaen yn yr Asesiad Lleol o Les.

36. Y 1,000 O DDIWRNODAU CYNTAF

Darparodd Dr Kathrin Thomas (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ddiweddariad ar y gweithdy arfaethedig i'w gynnal ar 6 Chwefror 2017. Nodwyd bod Wales Wide - United for Health, wedi cael ei ail-enwi'n: Cymru Well Wales. Amlygwyd yr angen i bartneriaid fod yn glir am bwrpas y fenter a gofynnwyd am arweiniad gan Aelodau'r Bwrdd ar bwrpas a blaenoriaethau.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylai'r thema fod yn Flaenoriaeth Gynnar.

- Ystyriodd Aelodau'r Bwrdd mai Blaenoriaeth Interim fyddai'n well, gan ei fod yn fenter tymor hir. Dylai p'un a ddylid cymryd y materion ymhellach fod yn destun trafodaeth arall.
- Gan fod y Cynllun Lles yn cael ei ddatblygu yn 2018, roedd pryder o amgylch yr her o sut i droi blaenoriaethau yn ganlyniadau y gellid eu cyflawni dros yr 8 mis nesaf.
- Goblygiadau adnoddau a buddion
- Darpariaeth beilot a hir dymor
- Roedd angen mapio er mwyn eglurder
- Cynnwys Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC) - fel y gall rhieni gyfrannu at y broses.

PENDERFYNWYD-

(a) Bod y Bwrdd yn ailddatgan yr angen am ymarfer mapio i dynnu sylw at yr hyn y gellid ei gyflawni a bod Gweithdy yn cael ei gynnal ddiwedd mis Ionawr i osod blaenoriaethau.

(b) Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ar ôl 6 Chwefror, 2017 ar y canlyniad.

37. CYFATHREBU

Rhoddodd Prif Weithredwr Conwy (Iwan Davies) y newyddion diweddaraf ar ddulliau cyfathrebu. Roedd rhestr o gysylltiadau cyfryngau cymdeithasol a thudalennau/ cyfrifon cyfryngau cymdeithasol allweddol ar gyfer pob sefydliad BGC wedi cael ei gynhyrchu a'i ddsbarthu i swyddogion perthnasol i'w weithredu (gan sicrhau fod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i hoffi, dilyn a rhannu cyfrifon a thudalennau partneriaid). Roedd Conwy yn bwriadu cynnal gweithdy yn y Flwyddyn Newydd i adolygu'r dull o ymgysylltu a gellid trafod hyn ymhellach gyda phartneriaid yn y dyfodol.

Mewn perthynas â rhannu desgiau a defnyddio WiFi gwestai, roedd partneriaid yn agored i ganiatáu mynediad i staff ac roedd gan y rhan fwyaf o bartneriaid BGC WiFi gwestai. Roedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Heddlu Gogledd Cymru WiFi mewn ardaloedd penodol o'u hadeilad. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am brosiect TG newydd a oedd yn cael ei brofi ar hyn o bryd. Ei nod oedd cael un rhwydwaith wifi a rennir rhwng cyrff sector cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru - gan gynnwys 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a BIPBC. Byddai hyn yn cael gwared ar yr angen am fynediad WiFi gwestai ar safleoedd partner.

Mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth, nodwyd nad oedd y maes yma wedi cael ei symud ymlaen yn llawn. Roedd swyddogion BGC wedi trafod y ffordd orau i ddatblygu hyn a daeth i'r casgliad y gallai Aelodau BGC elwa o gyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol, mewn perthynas â'r gweithdrefnau sydd eisoes ar waith ar ddatblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth. Nodwyd bod Conwy yn y gorffennol, wedi bod yn amharod i gymryd y risg o ran rhannu gwybodaeth, oherwydd y Ddeddf Diogelu Data a'r angen i gydbwysu gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, os oedd meysydd lle nad oedd Conwy yn darparu gwybodaeth, roedd angen cyfleu hyn i Swyddogion. Cytunodd yr Aelodau y dylid

mabwysiadu'r dull hwn gan bob Aelod o'r BGC ac na fyddai angen cyflwyniad.

PENDERFYNWYD-

Bod yr wybodaeth yn cael ei nodi a phan nad yw sefydliadau partner yn darparu gwybodaeth, dylai hyn gael ei gyfleu i'r Swyddogion.

38. CYTUNO AR YR AMSERLEN LEOL AR GYFER YR ASESIAID LLES A'R CYNLLUN LLES

Ystyriodd Aelodau'r Bwrdd yr amserlen BGC arfaethedig i gyhoeddi'r Aseiad Lles a Chynllun Lles ac, yn unol â gofynion allweddol y Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, cynigiodd Grŵp Swyddogion y BGC y terfynau amser canlynol:

- Cyhoeddi'r Aseiad Lles - 6 Mai, 2017
- Cyhoeddi'r Cynllun Lles - 31 Mai, 2018

Wrth ohirio cyhoeddi'r Cynllun Lles i 31 Mai, 2018 roedd nifer o fuddion a manteision allweddol yn cael eu darparu (a amlinellir ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad).

Trafododd Aelodau'r Bwrdd y materion canlynol:

- Awgrymwyd bod cyhoeddi'r Cynllun yn cael ei symud i fis Hydref, 2018 fel y gellid ystyried gofynion cyllidebol gan gynnwys rhanddeiliaid.
- Yr angen i sicrhau bod digon o amser i adolygu'r Cynllun a'r angen i fod fwy mewn cytgord â'r BGC eraill.
- Yr angen i sicrhau bod digon o amser i roi adborth.
- Y Weinyddiaeth newydd yn 2017 – roedd yr amserlen hon yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau ac yn caniatáu amser i fyfrio ar faterion cyllidebol.
- Mewn perthynas â'r ail bwynt bwled o'r buddion a manteision allweddol, awgrymwyd bod y geiriad 'manwl' yn cael ei ddileu, fel nad oes angen gwneud gwaith ychwanegol.

PENDERFYNWYD-

(a) Bod yr Amserlen, fel y'i cynigir, yn cael ei chymeradwyo, yn unol â phrif fuddion a manteision yr ymagwedd hon.

(b) Bod y geiriad yn yr ail bwynt bwled o'r buddion a manteision allweddol yn cael ei newid.

39. DRAFFT TERFYNOL YR ASESIAID LLES LLEOL – CYMERADWYO'R CYFANSODDIAD

Adroddodd Prif Swyddog Ymchwil a Gwybodaeth Conwy ar yr adborth a gafwyd hyd yma. Roedd Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol wedi allanoli'r ymateb i'r ymgynghoriad i Brifysgol Caerdydd ac nad oedd amserlen wedi'i chytuno eto ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.

Nid oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bopeth gael ei gynnwys, gan y byddai'r ddogfen yn datblygu dros amser. Nodwyd bod y pwyntiau bwled yn negeseuon strategol allweddol o sgysiau, trafodaethau ac ymgysylltu a gynhaliwyd.

Amlygwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

Lles Cymdeithasol - 14 ardal.

- Rhoi cychwyn i bob plentyn - roedd angen mwy o waith mewn perthynas â hyn a mynegwyd profiad anffafriol yn ystod plentyndod. Nodwyd y gallai'r pwyntiau bwled newid.
- Roedd y testun wedi cael ei addasu ar gyfer y sector cyn-ysgol. Nodwyd bod y diffiniad oedran yn drysu rhai partneriaid a'u bod yn hapus i gael eu galw'n blant a phobl ifanc.
- Anghydraddoldebau iechyd - gordewdra, lles meddwl
- Gwefan - yn y dyfodol byddai'r holl wybodaeth yn cael ei chynnwys ac roedd y ddolen gyswllt ar gael yn awr, a oedd yn cynnwys cyrhaeddiad ysgolion.

Trafodwyd y canlynol:

- Diffyg cyfeiriad at Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Nodwyd bod cysylltiadau yn cael eu hystyried gyda swyddogion o fewn y sefydliad.
- Nid yw plant gydag anableddau / anawsterau dysgu yn gyffredinol yn cael eu cwmpasu. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn cael ei herio yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Nodwyd y bu cynnydd yn y data sy'n ymwneud ag anableddau plentyn/oedolyn a dim ond yn ddiweddar y cafwyd yr wybodaeth hon.
- Pwysleiswyd yr effaith ar ofalwyr a theuluoedd ac anghenion gwasanaeth a nodwyd bod hyn yn cael sylw mewn fersiwn cynharach.
- Pwysigrwyd cynnwys pob cynllun / gwybodaeth, fel arall roedd yn anodd i sefydliadau addasu eu gwasanaethau yn ôl anghenion.
- Yr angen i gynnwys Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar droseddoldeb, nodwyddau budr mewn mannau chwarae a cham-drin domestig. Dywedwyd y oni bai bod y troseddwyr yn cael sylw, byddai mwy o ddioddefwyr yn cael eu creu ac roedd angen i edafu hyn trwy'r ddogfen. Mewn ymateb, nodwyd bod y fersiwn llawn o'r asesiad yn trafod troseddwyr.
- Plant ag anableddau, allfudo a phobl ifanc fel asedau ac awgrymwyd bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys fel pennod ar wahân. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd hyn wedi bod yn bosibl a bod y materion yn cael eu trin o dan tai a chludiant.
- Heneiddio'n Dda ac a yw hyn yn ymwneud â chartrefi gofal nyrsio neu ofal preswyl? Nodwyd bod yr wybodaeth hon wedi dod o'r Aseiad Poblogaeth ac yn ymwneud â thai â chefnogaeth.
- Awgrymwyd bod y teitl yn cael ei newid i 'Heneiddio' yn hytrach na 'Heneiddio'n Dda'.
- Roedd Cartrefi Nyrsio wedi cael ei symud i'r categori Economi.

- Y rhai sydd angen gofal a chymorth unigol a lle gorau iddyn nhw i fyw, wrth ystyried y cynnydd yn y nifer o bobl sy'n dioddef o dementia ac eiddilwch.
- Roedd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn fater pwysig a oedd yn cael ei gynnwys.
- Plismona ac effaith troseddu
- Awgrymwyd, gan fod y mwyafrif helaeth o wybodaeth ar y wefan, gellid ei agor i swyddogion technegol o sefydliadau i olygu trwy'r wefan, fel bod yr wybodaeth yn fyw ac wedi'i diweddarau. Mynegwyd pryder mewn perthynas â hyn, gan fod y BGC yn berchen ar y manylion ac roedd angen i Brif Swyddog Ymchwil a Gwybodaeth Conwy sicrhau bod y manylion yn cyd-fynd â'r Asesiad a bod pob maes yn cael ei gwmpasu.
- Amlygwyd pryderon ynghylch sialensiau posibl o ran y data sy'n ymwneud â sefydliadau. Rhoddodd y Prif Swyddog Datblygu Ymchwil a sicrwydd bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan sefydliadau wedi'i gadarnhau gyda nhw am gywirdeb a bod digon o amser i wneud hyn cyn ymgynghori ffurfiol.
- Roedd dadansoddiad ar ardaloedd cymunedol yn cynnwys llawer iawn o waith ac roedd perygl y gallai'r elfen strategol gael ei cholli. Roedd dull BGC Gwynedd ac Ynys Môn yn canolbwyntio ar gymunedau a gwnaed gwaith ar y lefel honno.
- Mewn perthynas â bylchau mewn mapio, amlygwyd yr angen i ddechrau ar bwynt eang a'i gyfyngu.

PENDERFYNWYD-

Bod aelodau'r BGC yn cysylltu â Phrif Swyddog Ymchwil a Gwybodaeth Conwy yn uniongyrchol os oes ganddynt unrhyw ymholiadau, neu angen eglurhad ar yr Asesiad Lles Lleol erbyn canol Ionawr, 2017, cyn cael ei lofnodi'n derfynol yn y gweithdy.

40. CYTUNO AR YR EGWYDDORION DROS FLAENORIAETHU

Ystyriodd Aelodau'r Bwrdd bapur trafod ar egwyddorion blaenoriaethu. Roedd y broses wedi creu strwythur a oedd yn gwneud pennu blaenoriaethau yn fwy systematig ac roedd yn cynnwys 7 cam penodol fel a ganlyn:

Cam 1 Sefydlu grŵp cyfranogol.

Cam 2 Nodi'r rhestr o themâu blaenoriaeth posibl o'r sefyllfa Asesiad Lles.

Cam 3 Cytuno ar feini prawf penodol a pha rai sydd bwysicaf.

Cam 4 Blaenoriaethu rhestr o faterion.

Cam 5 Sefydlu meini prawf ar gyfer dewis ymateb a chamau gweithredu.

Cam 6 Er nad yw'n ddyletswydd o dan y Ddeddf, ystyried asesiadau effaith, ee Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Cam 7 Cynnwys amcanion Lles a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Lles, edrych a diwygio.

Trafodwyd y canlynol:

- Cyfranogiad Gweithdy (i'w gynnal ar 23 Ionawr).

- Ni fyddai fforwm agored a chynhwysol yn hylaw, roedd yn well cael trafodaeth agored ar ôl y gweithdy.
- Yr angen i sicrhau bod blaenoriaethau yn diwallu anghenion cymunedau.
- Cydnabod nad oedd Parc Cenedlaethol Eryri, Coleg Addysg Bellach a Darparwyr Tai yn cael eu cynrychioli ar y BGC, ac roedd angen ystyried eu blaenoriaethau.
- Yr angen am dystiolaeth i gyfiawnhau camau gweithredu.
- Cynnwys rhanddeiliaid eraill wrth nodi blaenoriaethau.
- Cyflwyno materion lleol fel sail ar gyfer y rhestr gychwynnol o flaenoriaethau a chanolbwyntio ar 3 blaenoriaeth ar gyfer dadansoddiad ymateb.
- Meini prawf i ychwanegu gwerth yn y gweithdy.
- Blaenoriaethau posibl o'r Asesiad Lles i'w drafftio ymlaen llaw.
- Dylai'r sesiwn prynhawn o'r Gweithdy gael ei ddyrannu i'r ymarfer Blaenoriaethu Asesiad.
- Hwyluso gweithdy.
- Fformat y rhaglen.

PENDERFYNWYD-

(a) Dylai fformat y rhaglen ar gyfer y Gweithdy Amcanion Lles fod fel a ganlyn:

- **Sesiwn y Bore - Cyflwyniad, rhestr helaeth o Flaenoriaethau, cytuno ar feini prawf**
- **Sesiwn y prynhawn - blaenoriaethu Asesu - barnu yn erbyn meini prawf (meini prawf i gael eu drafftio ymlaen llaw)**

(B) Bod y Gweithdy Amcanion Lles yn cael ei hwyluso.

41. DIWEDDARIAD AR FLAENORIAETHAU TREFNIADOL

Ystyriodd Aelodau'r Bwrdd y Blaenoriaethau Sy'n Dod i'r Amlwg o ran Sefydliadau Partner Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Yr angen i sicrhau dull cydlynol a'r gallu i ychwanegu gwerth.
- Alinio â blaenoriaethau eraill.
- Eitem barhaol bosibl ar y rhaglen.
- Darparu cyfleoedd i gydweithio.
- Cydnabuwyd nad oedd BIPBC wedi'i gynnwys ar hyn o bryd.
- Cydnabuwyd bod angen poblogi themâu ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- Dylai'r ddogfen gael ei chyfyngu.
- I ail-enwi'r dogfennau yn 'Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych - Matrics o Blaenoriaethau Sefydliadol Ddrafft Partner Sefydliadol sy'n dod i'r amlwg' a throsglwyddo i mewn matrics.

PENDERFYNWYD-

Bod y ddogfen yn cael ei nodi a'i diwygio yn unol â hynny.

42. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a nodwyd yr ychwanegiadau canlynol:

27 Mawrth 2017 - Dadansoddiad bwlch ar gyfer y 1,000 diwrnod 1af
27 Mawrth 2017 - Ymgysylltu Cydweithio

Cafwyd trafodaeth ar gynnwys yr eitemau canlynol ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol:

- Diwygio Llywodraeth Leol i fod yn eitem sefydlog ar yr agenda BGC.
- Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mhob rhanbarth Bwrdd Iechyd yng Nghymru.
- Adborth gan BGC eraill.
- Nodi cerrig milltir allweddol ar gyfer yr Asesiad Lles a Chynllun Lles.
- Ystyried maint/ hyd yr Asesiad Lles.

CYTUNWYD:-

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, gan gynnwys y pwyntiau bwled ychwanegol uchod.

43. **UNRHYW FATER ARALL**

Gweithio Rhanbarthol

Adroddodd Prif Weithredwr Conwy (Iwan Davies) ar gyhoeddiad Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dylai Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru weithio tuag at weithio'n rhanbarthol a bod ffocws gweddill Cymru o gwmpas Byrddau Iechyd Lleol a Rhanbarthau Ddinas. Gofynnwyd am gynigion yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Roedd y meysydd ar gyfer gweithio rhanbarthol fel a ganlyn:

- Gwella Ysgolion
- Rhan 9 Bwrdd ac Integreiddio Cymdeithasol
- Rhesymoli Diogelwch Cymunedol
- Isadeiledd - Cludiant

Nodwyd mai ychydig iawn o gyfeirio oedd yna at y BGC. Fodd bynnag, roedd Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol o'r farn bod BGC yn chwarae rhan bwysig.

Sylwer: Ar hyn o bryd gadawodd Simon Smith (Prif Swyddog a Phrif Weithredwr Gwasanaeth Tân ac Achub) a'r Cyngorydd Hugh Evans (Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych) y cyfarfod, felly, nid oedd cworwm bellach i'r cyfarfod.

Iechyd a Lles – Tu Allan

Nododd Pennaeth Darparu Lleol yn y Gogledd - Cyfoeth Naturiol Cymru (Sian Williams) bod momentwm yn casglu mewn perthynas â hyn a bod

cyfarfod wedi'i gynnal gyda Snowdonia Active - Sector Awyr Agored mewn perthynas â mynd i'r afael ag iechyd meddwl / corfforol a'r angen am hyfforddiant ymwybyddiaeth.

Darparodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wybodaeth ar-lein mewn perthynas â hyn ac yn ddiweddar roedd wedi derbyn cymeradwyaeth ar gyfer llwybr aml-ddefnydd, yn rhedeg o Gapel Curig i Ben y Gwryd, a oedd yn darparu mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn, beiciau a phramiau.

Amlygwyd cysylltiadau'r Cyngor Celfyddydau ag iechyd a'r awyr agored a'r angen am i'r sefydliad hwnnw gymryd rhan fel grŵp rhanddeiliaid ar y BGC, ynghyd ag ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid i helpu i gyflawni blaenoriaethau.

Cyfryngau Cymdeithasol ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Nodwyd bod BGC Gwynedd ac Ynys Môn yn defnyddio cyfrif twitter mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned. Nodwyd bod Conwy yn gweithredu gwefan 'Sgwrs y Sir', gan yr ystyriwyd nad oedd angen hunaniaeth ar wahân ar gyfer BGC Conwy a Sir Ddinbych.

(Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 pm)
